**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2496 (Cy. 200 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000.

Maent yn gwneud darpariaethau i'r Gofrestr o athrawon ac athrawesau sy'n cael ei chadw gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gofnodi telerau gorchmynion disgyblu sy'n cael eu gwneud gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr. Mae'r ceryddon sy'n cael eu rhoi gan y naill neu'r llall o'r Cynghorau hyn i aros ar y Gofrestr am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y mae'r cerydd yn cael ei roi.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth hefyd i'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo i gyflogwyr ar gais.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2496 (W. 200 )

# EDUCATION, WALES

## The General Teaching Council for Wales (Functions) (Amendment) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations.)*

These Regulations amend the General Teaching Council for Wales (Functions) Regulations 2000.

They make provisions for the Register of teachers maintained by the General Teaching Council for Wales to record the terms of disciplinary orders made by the General Teaching Council for Wales or the General Teaching Council for England. Reprimands issued by either of these Councils are to remain on the Register for a period of two years from the date the reprimand is issued.

The Regulations also make provision for this information to be passed to employers upon request.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2496 (Cy. 200 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *5 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 4(1), 4(2)(d), 4(3), 14(3) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001 a deuant i rym ar 1 Awst 2001.

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000**

**2**. Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000(**c**) yn cael eu diwygio -

(a) drwy fewnosod y canlynol ar ôl "Atodlen 1" ar ddiwedd rheoliad 6(1):

"am unrhyw gyfnod (os o gwbl) a bennir yn yr Atodlen honno";

(b) drwy fewnosod y paragraffau canlynol ar ôl paragraff 22 o Atodlen 1 :

"**22A**. Telerau unrhyw orchymyn disgyblu, heblaw cerydd, sydd mewn grym am y tro, a wnaed gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

(a) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 43(1).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 2000/1979 (Cy.140).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2496 (W. 200 )

# EDUCATION, WALES

## The General Teaching Council for Wales (Functions) (Amendment) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *5th July 2001* |
| *Coming into force* | *1st August 2001* |

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 4(1), 4 (2)(d), 4(3), 14(3) and 42(6) and (7) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**), and having consulted the General Teaching Council for Wales in accordance with section 42(9) of that Act, the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Citation and commencement**

**1**. These Regulations are called the General Teaching Council for Wales (Functions)(Amendment) Regulations 2001 and shall come into force on 1st August 2001.

**Amendment of the General Teaching Council for Wales (Functions) Regulations 2000**

**2**. The General Teaching Council for Wales (Functions) Regulations 2000(**c**) are amended by -

(a) the insertion after "Schedule 1" at the end of regulation 6(1) of the following:

"for such period (if any) as is specified in that Schedule";

(b) the insertion after paragraph 22 of Schedule 1 of the following paragraphs:

"**22A**. The terms of any disciplinary order, other than a reprimand, for the time being in force, made by the Council or the General Teaching Council for England.

a) 1998 c. 30. The relevant provisions apply in relation to the General Teaching Council for Wales by virtue of sections 8 and 9 of the Act and the General Teaching Council for Wales Order 1998 (S.I. 1998/2911). For the meaning of "prescribed" and "regulations" see section 43(1).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 2000/1979 (W.140).

**22B**. Telerau unrhyw gerydd a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr, am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y rhoddwyd y cerydd."; a

(c) drwy fewnosod y paragraffau canlynol ar ôl paragraff 13 o Atodlen 2:

"**13A**. Telerau unrhyw orchymyn disgyblu, heblaw cerydd, sydd am y tro mewn grym, a wnaed gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

**13B**. Telerau unrhyw gerydd a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ac a gofndowyd ar y gofrestr."

**22B**. The terms of any reprimand issued by the Council or the General Teaching Council for England, for a period of two years from the date the reprimand was issued."; and

(c) the insertion after paragraph 13 of Schedule 2 of the following paragraphs:

"**13A**. The terms of any disciplinary order, other than a reprimand, for the time being in force, made by the Council or the General Teaching Council for England.

**13B**. The terms of any reprimand issued by the Council or the General Teaching Council for England and recorded on the register."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**a**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

5 Gorffennaf 2001

5th July 2001

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2496 (Cy. 200 )

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2496 (W. 200 )

## EDUCATION, WALES

The General Teaching Council for Wales (Functions) (Amendment) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090301-3

9 780110 903019

£X.XX

W/333/08/01 ON